

## **Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022**

### **341 - Beirniadaeth Rhyddiaith BL 8**

#### **Beirniad: Dyfan Tudur**

Mewn byd sy'n mynd yn fwy a mwy dibynnol ar sgriniau, mae 'Ar y Sgrîn' yn destun perffaith i ddigyblion blwyddyn wyth, a'r amrywiaeth o fewn y deg darn yn brawf o hynny.

Er bod ambell enghraifft o brofiadau hapus fel dod yn rhan annisgwyl o'r ffilm 'Jurassic Park' ac ennill gwobr am gyfansoddi cerdd am benblwydd Mistar Urdd, mae eraill yn delio gyda thestunau mwy difrifol fel bwlio digidol, COVID-19, dementia ac enwogrwydd.

Mae llond llaw o'r darnau wedi creu tipyn o argraff, ond dau yn arbennig:

Cryfder 'Bendigeidfran' yw'r modd y mae'n cyfuno galar a thristwch gyda ffantasi llwyr. Hyd yn oed mewn darn byr iawn, mae'n amlwg i'r darllenydd nad yw Twm yn fachgen direidus, ond mae'n rhaid iddo bwysu'r botwm oherwydd ei berthynas agos gyda Nain a Taid. Llwyddodd y darn hwn i fy nghyffwrdd. Diolch.

Mae darn 'Gwenno' hefyd yn gyfuniad o emosiynau, a'r cyfan yn ymwneud â'r pandemig, neu'r 'bwystfil' fel mae'n cael ei alw yma - gwych.

Rhaid cyfaddef fy mod yn agos iawn at gael fy siomi tua'r diwedd. Ro'n i'n ofni am eiliad bod 'Gwenno' wedi mynd am ddihangfa rhy hawdd, ond yna daeth y frawddeg olaf a newid fy meddwl. Rhaid oedd darllen eto... ac eto...

Ar y naill law, dwi'n ddiolchgar i'r cystadleuwyr am beidio â chynnwys y pandemig ym mhob gwaith, gan ein bod i gyd wedi blino ar ôl dwy flynedd hir iawn; ar y llaw arall, mae Gwenno yn llawn haeddu ennill y gystadleuaeth hon.